Dŵr Cymru
Welsh Water

Canllaw i'n Cynllun Iaith Gymraeg

Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 14 Hydref 2005 o dan adran 14(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Y Cynllun Iaith Gymraeg a Dŵr Cymru Welsh Water

Mae mwy a mwy o bobl yn siarad Cymraeg ac yn gwerthfawrogi'r iaith ac mae'n rhan o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw a gweithio yng Nghymru. A minnau'n Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru Welsh Water, rwy'n credu ei bod yn rhaid i'r iaith fod yn rhan o'r hyn y mae'n ei olygu i weithio i ni hefyd.

Rydyn ni'n wirioneddol awyddus i'w chefnogi, fel y gallwn helpu i sicrhau bod dwyieithrwydd yn rhan hanfodol o'n diwylliant. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi beth y dylai hyn ei olygu yn ymarferol, ond rydyn ni'n mynd yn bellach na hyn. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan naturiol o'r ffordd yr ydyn ni'n gweithio – ym mhob rhan o'r busnes, ac rwy'n teimlo y dylai pawb ohonom barchu, gwerthfawrogi ac annog hynny.

Rydyn ni'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chanran uchel o'r bobl sy'n siarad Cymraeg a bwriad y daflen hon yw rhoi crynodeb o'r gwasanaethau a gynigiwn yn y Gymraeg. Gobeithio y bydd o gymorth i chi.

Nigel Annett
Rheolwr Gyfarwyddwr

Mae Dŵr Cymru wedi gweithredu'r Cynllun trwy fabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn fel y gall cwsmeriaid yng Nghymru gynnal eu busnes gyda ni yn eu dewis iaith:

- Rydym yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu hanghenion a'u barn yn well yn eu dewis iaith.
- Rydym yn cydnabod bod gwahodd y cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o arfer da a gofal da am gwsmeriaid.
- Yn yr ysbryd o gydraddoldeb a geir yn Neddf yr Iaith Gymraeg, rydym yn derbyn fod gan ein cwsmeriaid yr hawl i ddewis ai yn y Gymraeg ynteu'r Saesneg y maent yn dymuno ymwneud â ni.

Mae Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwyr Dŵr Cymru'n hollol ymwybodol o ofynion y cynllun a byddant yn sicrhau fod y gofynion hyn yn cael eu hadlewyrchu wrth i'r Cwmni a'r cyrff sy'n gweithredu ar ran y Cwmni gynnig gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Cyflenwi'r gwasanaeth hwn

- Pan fyddwn yn cynllunio ac yn llunio polisïau neu fentrau newydd, byddwn yn ystyried y canlyniadau ieithyddol i wneud yn siwr eu bod yn cyflawni'r addewidion a wneir yn ein cynlluniau.
- Rydym yn ceisio sicrhau fod ein gwasanaethau a'n gofal am gwsmeriaid yn cyrraedd safon uchel ym mhob agwedd ar ein gwaith yn unol â'r addewidion a roddir yn ein cynllun.
- Er na fydd modd darparu rhai gwasanaethau arbenigol a thechnegol yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, bwriad y Cwmni yw cynnig gwasanaeth sydd mor gyflawn ag y bo modd.

Cysylltu â Phobl sy'n Siarad Cymraeg

- Mae croeso i gwsmeriaid ysgrifennu atom yn y Gymraeg ac, os gwnânt hynny, byddant yn cael ateb Cymraeg.
- Os gwyddom ei bod yn well gan gwsmer gael gohebiaeth Gymraeg, byddwn yn sicrhau, os yw'n ymarferol, ein bod yn ysgrifennu ato/ati yn Gymraeg.
- Mae croeso i gwsmeriaid siarad Cymraeg â ni dros y ffôn. Mae gan Ddŵr Cymru linell Gymraeg ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno holi am eu bil. Y rhif yw **0800 052 6058**. Mae'r llinell hon ar agor rhwng 8 y bore ac wyth y nos o ddydd Llun tan ddydd Gwener a rhwng 8.30 a 1.30 ar ddydd Sadwrn. Os oes gan gwsmeriaid ymholiadau am ein busnes gweithredol, dylent ffonio **0800 052 0130** a chânt ddewis siarad â rhywun Cymraeg ei iaith rhwng 8 a 5 o'r gloch.
- Os gofynnir i un o gynrychiolwyr y cwmni roi cyflwyniad am y cwmni i ysgolion neu grwpiau gwirfoddol neu gymunedol, byddwn yn talu sylw i'r gofynion ieithyddol.

Delwedd Gorfforaethol

Bydd gan brif bartneriaid Dŵr Cymru ddelweddau corfforaethol hollol ddwyieithog a byddant yn sicrhau bod eu penllythyrau, eu logos a'u sloganau yn ddwyieithog.

- Bydd yr holl hysbysiadau cyffredinol a chyhoeddus, datganiadau i'r wasg a hysbysebion swyddi yn y wasg neu ar y teledu neu'r radio yn ddwyieithog.
- Bydd defnyddiau arddangos a gwybodaeth a ddefnyddir mewn arddangosfeydd a digwyddiadau hyrwyddo yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Bydd yr arwyddion y tu allan i holl safleoedd Dŵr Cymru yng Nghymru ac ar holl gerbydau ei brif bartneriaid yn ddwyieithog.
- Y drefn arferol yw bod defnyddiau sy'n cael eu hargraffu a'u cyhoeddi ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Swyddi 'Hanfodol' a 'Dymunol'

- Mae Dŵr Cymru'n cydnabod yr angen i gyflogi digon o weithwyr Cymraeg eu hiaith gyda'r sgiliau priodol fel y gallant weithredu'r Cynllun, yn enwedig gweithwyr sy'n dod i gysylltiad â chwsmeriaid yn rheolaidd.
- Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ganfod ym mha lefydd, swyddogaethau a swyddi y mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol ac i sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny.

Gweithredu a Monitro

- Caiff y cynlluniau eu monitro gan Banel Iaith Gymraeg o dan Gadeiryddiaeth un o Uwch Reolwyr y cwmni a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff y Cynllun ei weithredu.
- Mae'r Panel yn adrodd yn uniongyrchol wrth Fwrdd Gweithredol Dŵr Cymru unwaith y flwyddyn ar y ffordd y caiff gofynion y Cynllun eu gweithredu, cydymffurfiaeth a pherfformiad.

Arweiniad byr i Gynllun Iaith Gymraeg Dŵr Cymru Welsh Water yw hwn.
Os hoffech weld copi llawn o'r cynllun, ewch i wefan Dŵr Cymru **www.dwrcymru.com** neu os hoffech weld copi papur neu wneud rhyw sylw, ysgrifennwch at:

Helen Smith,
Panel yr Iaith Gymraeg,
Dŵr Cymru Welsh Water, Heol Pentwyn,
Nelson, Treharris CF46 6LY.